# Datganiad sefyllfa ar y berthynas rhwng Cymwysterau Cydnabyddedig a Chofrestriad (cymhwyster i ymarfer ar gyfer myfyrwyr)

Os nad oes gwybodaeth ychwanegol ar gael i'r GOsC, fel arfer ni fyddai disgwyl i'r sefydliad wrthod cofrestru unigolyn y dyfarnwyd cymhwyster cydnabyddedig iddo. Golyga hyn y bydd dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig fel arfer yn arwain at gofrestriad gyda'r GOsC.

Os deuir o hyd i wybodaeth ychwanegol rhwng dyfarnu'r cymhwyster cydnabyddedig a'r cais am gofrestriad, sef gwybodaeth nad oedd yn hysbys i'r sefydliad addysgol osteopathig yn ymwneud ag iechyd neu gymeriad yr ymgeisydd, bydd y Cofrestrydd yn ystyried yr wybodaeth honno ar wahân, yng ngoleuni'r safonau ymddygiad a chymhwysedd cyfredol a bennir yn Safonau Hyfedredd a Chod Ymddygiad y GOsC.

Golyga hyn y bydd y Cofrestrydd yn penderfynu a ganiateir i'r ymgeisydd ymarfer heb oruchwyliaeth hyd at y safonau gofynnol a nodir yn y Safonau Hyfedredd a'r Cod Ymddygiad, gan roi sylw dyledus i ddeddfwriaeth, yn cynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (fel y'i diwygiwyd).

Pan fo angen, bydd y Cofrestrydd yn ceisio cyngor gan y Cyngor er mwyn gwneud y penderfyniad hwn.